

# 17 Elusenau ac ewyllysiau

(a) Elusenau.

Hen arferiad yr Eglwys Wladol oedd gwneud casgliad yng ngwasanaeth y Cymun bob Sul tuag at gynorthwyo'r tlodion. Ar ôl dinistr y mynachlogydd yn nheyrnasiad Harri VIII. ceid cyfeillion y tlawd yn gwneud rhoddion parhaol yn eu bywyd ac yn eu hewyllysiau i'r tlodion, mewn arian, tiroedd neu ran o ardreth eu etifeddiaeth.

Ymysg cyfrifon wardeniaid eglwys Niwbwrch ymddengys manylion am ddau gymynrodd i gynorthwyo pobl dlotaf y plwyf, a chan nad oes sôn amdanynt yn unman arall, rhoddir hwynt yma air am air:

Memorandum that Katherine Morgan viz. Cathrin Dew, Daughter to one Morgan Jones of Llanddwyn parish, in the county of Anglesea, Gent. Left for a Legacy to the Poor of Newburgh adjoining to the aforesaid Llanddwyn parish, the sum of one shilling to be paid yearly to the church wardens of Newburgh aforesaid, to be Distributed to the poor people of Newburgh. Being the use or Interest of twenty shillings to be paid as long as watter runs, and is now in the hands of one Humphrey Roberts, Inhabitant of the Parish of Amlwch in the said County of Anglesea, who paid the first payment Due after the Death of the above named Kath. Morgan for the use of the abovesaid poor, for the year of our Lord 1731 to the Hands of John Williams and Griffith Ellis, Church Wardens of St. Peters Newburgh for the same year.

Witness,

Richd. Parry.

Memorandum. That Thomas Williams & David Morris, Executors of Samuel Williams, late of Shamber Wen, in the parish of Llanddaniel, yeoman deceased, did on the twentieth day of April 1795, pay to Richard Edwards and John Abraham, Churchwardens of this parish, the sum of Ten pounds in full of the Legacy left by the Will of said Samuel Williams to the Churchwardens of the parish of Llanbedr Newborough, to be laid out at Interest by them, such Interest to be applied at their directions to the poorest old and young persons, resident in /181/the said parish, but not to be applied to, or go in ease of, the poor Rates of the said parish.

Witness their hands the day and year aforesaid.

Richard Edwards.

the mark X of John Abraham.

Ceir dau Adroddiad swyddogol yn glŷn âg Elusenau gwaddoledig Môn, un yn Ionawr 1833 gan Ddirprwywr y Llywodraeth a'r llall yn Ebrill 1896 gan Ddirprwywr

Cynorthwyol.<sup>1</sup> Cynhaliwyd yr ail ymchwiliad yn Ysgoldy Capel y Methodistiaid Calfinaidd yn Niwbwrch, ac yn bresennol yr oedd y Parch. Richard Evans, rheithor; Mr. Hugh Jones,- Bod-Iorwerth, warden eglwysig; Capt. Robert Roberts, Tal-y-braich; Capt. John Jones, Baron-hill; Capt. Hugh Evans, Bron-dderwydd; Mri. Lewis Lewis; Hugh Evans, Chapel Street; Owen J. Jones Tŷ-lawr; Daniel Hughes; R. Lloyd Hughea, Cefn-mawr, &c., a Mr. R. D. Owen, Penrhyn-isaf, Aberffraw.

## 1. *Elusen Ellen Owen.*

Dengys *Parliamentary Returns* 1786 fod Ellen Owen, drwy ei hewyllys a wnaed rhyw adeg cyn 1786, wedi gadael ,3 yn flynyddol i brentisio un bachgen tlawd bob blwyddyn o blwyfi Llangeinwen, Llanfair-y-cwmmwd, Llanbedr Newborough, neu Rhos-colyn, yn ôl doethineb rheithor Llangeinwen (tud. 312). Derbynid y ,3 yn flynyddol gan wardeniaid eglwys Llangeinwen oddi wrth denant Clynnog fawr ym mhlwyf Llangeinwen. Gofelid am wneud ymchwiliad manwl i gymeriad y meistr er sicrhau bod y bachgen yn cael pob chwarae teg, a dilledid y bachgen ar ddechreuad ei brentisiaeth ar draul y plwyf. Ceid un enghraifft, lawer blwyddyn yn ôl, o fachgen tlawd o Niwbwrch yn sicrhau yr elusen hon, am nad oedd ymgeisydd o Langeinwen (tud. 313).

Yn ôl Adroddiad 1896 dywedodd rheithor Llangeinwen fod ,3 yn cael eu derbyn yn flynyddol, ym mis Hydref fel arfer, oddi wrth Mr. J. H. Griffith, perchennog Clynnog Bach. Ychwanegodd y rheithor na dderbyniodd unrhyw gais dros fechgyn o blwyfi eraill, ond o Langeinwen yn unig. Wedi ymchwiliad gofalus, cafwyd bod yr elusen hon wedi ei chyfyngu, er y flwyddyn 1833, i fechgyn o blwyf Llangeinwen. Cadarnhawyd y dystiolaeth hon, ar ôl ymholiadau ym mhlwyfi Llanfair-y-cwmmwd, Llanbedr-Newborough a Rhos-colyn (tud. 315).

## 2. *Elusen Owen Jones.*

Gadawodd Owen Jones o Marian, Trefdraeth, drwy ei ewyllys ar 9 Mehefin 1788, y swm o ,30, a'r llog i'w rannu, yn ôl doethineb wardeniaid yr eglwys, yn flynyddol ar ddydd Sant Thomas i'r bobl dlotaf ym mhlwyfi Llangadwaladr (12/- [60p]), Llanbedr-Newborough/182/ (10/- [50p]) a Trefdraeth (8s. [40p]). Er sicrhau y byddai'r arian ar gael am byth ychwanegodd fod ardreth Tyddyn-Adda a Thyddyn-crythor ym mhlwyf Trefdraeth, a'r Erw-goch yn Niwbwrch i wneud y swm yn 30/- [£1-50p], os byddai angen.

Yn ôl *Adroddiad* 1833 derbynid 12/- bob blwyddyn oddi wrth denant tiroedd Tyddyn-Adda a Thyddyn-crythor, yn agos i'r Marian, a rhennid yr arian gan wardeniaid yr eglwys, fesul 6d. [3p] i dlodion y plwyf nad arferent gael "arian plwyf" (tud. 292). Wedi'r ymholiad swyddogol yn Ebrill 1896, deallwyd bod yr elusen hon wedi diflannu yn llwyr (tud. 294).

<sup>1</sup> *Commissioners=Report on Endowed Charities - County of Anglesey* (1897), pp. 156-161.

### 3. *Elusen Richard Williams.*

Dengys *Adroddiad* 1833 fod Richard Williams, o Dre-Ddafydd, plwyf Trefdraeth, yn ôl ei ewyllys dyddiedig 28 Ebrill 1777, wedi gadael tŷ a gardd, o'r enw Allt-gwta, yn agos i eglwys Niwbwrch, i dlodion plwyfi Niwbwrch a Threfdraeth am byth, h.y., fod ardreth Allt-gwta i'w rhannu yn gydradd rhwng tlodion y plwyfi hyn. Derbynid 10/- y flwyddyn oddi wrth denant Allt-gwta gan wardeniaid yr eglwys, a rhennid yr arian hyn yn unol ag ewyllys y rhoddwr - Richard Williams (tud. 463).

Ond yn ôl *Adroddiad* 1896 (tud. 466) ymddengys fod yr Allt-gwta yn cynnwys dan dŷ a gerddi.<sup>2</sup> Tystiodd Thomas Jones, o Glan-traeth, Bodorgan, ei fod yn warden yr eglwys ers 20 mlynedd, na dderbyniodd erioed ardreth o'r Allt-gwta, ac nad oedd yn meddwl bod ardreth wedi ei thalu er 1860. Yn ôl hen lyfr cyfrifon plwyf Trefdraeth talwyd 10/- yn 1842 gan un William Evans am Allt-gwta, ond nid oes prawf fod dim wedi ei dalu ar ôl hynny (tud. 158).

### 4. *Eiddo Capel Methodistiaid Wesleiaidd Niwbwrch;*

Gweler hanes Methodistiaid Wesleiaidd Niwbwrch (tud. 173).

### 5. *Elusen Owen Hughes;*

Gweler hanes Methodistiaid Calfinaidd Niwbwrch (tt. 169-170).

### 6. *Tir-y-Tlodion.*

Yn ôl *Deddf* a ddaeth i rym ar 25 Mai 1815, neilltuwyd y tiroedd a ganlyn er cynhaliaeth y tlodion ym mhlwyf Llanbedr-Newborough:

(1) i dlodion Niwbwrch (wardeniaid yr eglwys, *overseers* neu'r gwarcheidwaid) un darn o dir oddeutu; 10 acer ar y ffordd gyhoeddus o Niwbwrch i Landdwyn (tt. 159-160);

(2) i *overseers*, gwarcheidwaid neu ymddiriedolwyr eraill tlodion plwyf Niwbwrch, un darn o dir yn cynnwys 2r[ods]. 20p[erches]. Un or enw Thomas Evans oedd yn dal hwn yn 1845 (tud. 160).

Dywedid yn yr Ymchwiliad swyddogol yn 1896 fod y tir 10 acer wedi ei gymryd drosodd gan Gyngor Plwyf Niwbwrch, am ardreth flynyddol o ,2 - i'w dalu ar 13 Tachwedd. Rhannwyd y swm o ,2 ar 5 Rhagfyr 1894 ymysg 53 o bobl, 11 o feibion a 42 o ferched, 9d. [4p] i bob un; o'r derbynwyr hyn yr oedd 44 "ar y plwyf."

**/183/** Dywedodd y Dirprwywr Cynorthwyol nad oedd gan Gyngor y Plwyf

<sup>2</sup> Yr oedd yr ail dŷ yno mor gynnar ag 1818, beth bynnag (*Ibid.* p. 467)

unrhyw awdurdod ar yr elusen, ond yn unig dewis ymddiriedolwyr yn lle wardeniaid yr eglwys a'r *overseers*, yn unol â *Deddf Llywodraeth Leol* (1894), adran 14 (2).

Ynglŷn â'r ail darn tir, tystiwyd yn yr Ymchwiliad (1896) fod y tir hwn wedi ei gyfnwid, 50 neu 60 mlynedd ynghynt, am glwt o dir - 3r. 6p - a adnabyddid fel Ponc-y-Plwy neu Bonc-tlodion, a oedd yn rhan o dir Allt-gwta (tud. 160).

### 7. *Elusen Owen Williams.*

Dywed *Adroddiad* 1833, a hefyd y *Parliamentary Returns*, fod un o'r enw Owen Williams, yn ôl ei ewyllys (ni wyddid ei dyddiad y pryd hynny) wedi gadael tir gwerth ,1-12-0 [£1-60p] y flwyddyn, yr elw yma i'w ddefnyddio i brentisio plant tlodion. Yr oedd yr eiddo hwn, sef ffermdy a thir cyfagos, ym mhlwyf Niwbwrch, yn cynnwys 1a. 2r[ods]. 14p[erches]., ac ychwanegwyd ato 2a. 3r. 4p. o dir 20 mlynedd cyn hynny (1833) pan amgaewyd "comins" Malltraeth (tud. 463).

Dengys *Adroddiad* 1896 mai Tyddyn-tlodion yw enw'r lle ym Malltraeth Street, Niwbwrch, ac yn cael ei ddal, am ,5 o ardreth o flwyddyn i flwyddyn, gan un Daniel Hughes. Hugh Jones oedd y tenant yn 1845.<sup>3</sup> Yn ôl *Deddf Lywodraeth Leol* (1894), adran 14 (2), trosglwyddwyd yr ardreth oddi wrth wardeniaid eglwys plwyf Trefdraeth i ymddiriedolwyr, sef Mri. Richard Griffith a William Edwards (tt. 465-6).

(b) Ewyllysiau.

Hyd yn gymharol ddiweddar ni sylweddolwyd gwerth hanesyddol a llenyddol ewyllysiau; ond erbyn hyn mae'r maes newydd hwn yn cael ei chwilota gan yr achydd, bywgraffydd, ieithydd, economydd a'r topograffydd. Yma caiff ddarlun gwerthfawr o wisgoedd, moesau, iaith, dodrefn, pris anifeiliaid ac, mewn gair, popeth cysylltiedig â hanes teuluoedd a chartrefi'r wlad.

Ganrifoedd yn ôl, byddai'r cymynwr, os yn gefnog - ac yn arbennig os yn babydd - yn gyffredin yn rhoddi cyfran o'i eiddo i eglwys ei blwyf (llyfrau gwasanaeth, gwisgoedd offeiriadol, &c.), i amryw urddau mynachol neu dal crefyddol, i rai mewn claf dai neu garchardai; ac yn aml arian yn waddol i wryfon tlawd, i adgyweirio prif-ffyrdd a phontydd, ac i amcanion elusengar eraill.

Yn y trefnu o'i dda bydol ymysg ei berthnasau a'i gyfeillion yr oedd dyledion a threuliau cynhebrwng y cymynwr i'w talu gyntaf oll; yna rhoddid i'r wraig yr hyn oedd y gyfraith neu'r ddefod yn ei ganiatâu, onid oedd trefniant arbennig wedi ei wneud iddi gan y cymynwr. Ar ôl hynny deuai rhannu y gweddill o'i dda-dodrefn, dilladau, &c.

Ar y cyntaf yr oedd ewyllysiau Môn ynghadw yn Nghadeirdy Eglwys Gadeiriol Bangor, ond dinistriwyd hwy trwy dan a fu yno /184/oddeutu 1630. Cedwid yr ewyllysiau ar ôl hyn yn yr un lle hyd 1858-1861, pan symudwyd hwy i'r *District*

<sup>3</sup> "*Tithe Apportionment Award of the Parish of Llanbedr Newborough*" dated 28 February 1845.

*Probate Registry* sydd o fewn tafliaid carreg i'r Cadeirdy. Rhyw ddwy flynedd yn ôl aed â hwy i ddiogelwch a chadwraeth y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Dyma gopi o'r ewylllys hynaf oddi eithr un o Niwbwrch sydd ar gael, ond mae rhai geiriau ynddi yn aneglur:

*Rowland ap Wm ap Edward; Llanbeder in Newborough; 3 August 1635.*

In the name of God, Amen. The third daie of August 1635 I Rowland ap William ap Edward of the parish of Llanbeder in Newborough being sicke in body but of good & perfect memory (the Lord be praised), do make my last will & testament, in manner & forme following: - And first I bequeathe my soul to the allmightie God my maker & redeemer, & my bodie to bee buried in the parishe church of llannbedr *Item* I give towards the restoration of the said Church 12d.; *item*, I give towards the Cathedrall Church of Bangor , 4; *item* I give & bequeathe unto Rowland ap John Rowland my grand child one parcell of land in a place called y ... and one gardaine lying in a place called yr Allt hir being the next adjoining to the ... of two gardens which are there; *item* I give & bequeathe unto John Rowlande my sonne all the rest of my lands in llanbeder or elsewhere duringe his life tyme. And after his decease unto Rowland John his sonne & to his heires, & in default of issue, unto the said Rowland, unto Rees ap John Rowland & to his heires & in default of issue ... unto the third ffourth, fyfth & sixth sonne of the saide John Rowlands ... and after an other now (?) lawfullie begotten by his saide wiefe; *item* I give unto the said Rowland ap John my grandchild , 13; *item* I give unto Rees ap John , 10; *item*, I give unto William ap John £10; *item*, I give unto hugh ap John £10; *item*, I give unto Richard ap John , 10; *item*, I give unto Edward ap John , 10; *item*, I give unto Gwenne Rowland my daughter , 2; debts due unto mee, first with Richard John ap Moris 18s. [90p]; *item*, with John ap Richard ap Thomas , 5.12d.; *item*, with Richard Williellmus 18s. 4d. to be payed upon the 8th daie of December next; *item*, withe Jonett verch Robert 15s.[75p]; *item*, with William humffrey & his wiefe 28s.; *item*, with Hugh Morgan ... & his wiefe 32s.[£1-60p]; *item*, with Hugh Wynne Tre Iorwerth , 3; *item*, with William John ap hugh , 20 1s. 8d; *item*, with John ap hugh ap Jeuan 23s 4d [£1-17p] to bee payed on the 24th daie of October next; *item*, with David Lloyd ap John 20s £1]; *item*, with David ap Jeffrey 10s [50p]; *item*, with Edward Morgan 10s; *item*, with William ap hugh ap Owen 2s. 6d [13p]; *item*, with Owen David C ... 3s; *item*, with Ellinne verch /185/Richard Evan Mredythe wiefe 18d; *item*, with Robert Rowland 16d.; *item* ... with William John ap hugh 16d.; *item*, with Owen ap Robert llwyd 5s; *item* ... with Owen ap Robert lloyd ...

Dyma grynnodeb o ewylllys ddiweddarach:

*Will of John Thomas, Ty'nygraig of Llanbedr Newborough, yeoman; 1781 (proved 1786); to his daughters Janet, Mary, Elizabeth, Margaret and Catherine Jones 2/6*

[13p] each; to his friend Thomas Williams Pwll yr Hwyaidd (one of the members of a religious society holden at Newborough) , 1. 1. 0 to buy a Welsh Bible for the use of the chapel at Newborough or for any other pious and charitable use and purpose that he shall think proper; the remainder to his son Robert Jones if he keeps for life his mother and my wife Catherine.

Am eraill o gymynwyr Niwbwrch rhaid bodloni ar hyn o bryd, ar y rhestr ganlynol o'u henwau yn unig, gyda'r flwyddyn:

*\*Gweinyddiad. †Llechres o enwau da a dodrefn.*

1635 Hugonis ap Robert Rowlandi ap William ap Edward (gweler y ddalen flaenorol).  
 1637 Rowlandi ap Robert  
 1661 Johannis Owen Griffith  
 1662 Marie Lewis  
 1663 Maria Lewis  
 1664 \*Elizabetha Owen  
 \*Willimi Lewis  
 \*Ludovici John ap William  
 1666 Johannis Rowland  
 1669 Thomae David  
 1670 Ganæ Morris (Llanddwyn)  
 1671 \*Thomae Williams  
 1674 Thomae Charter (Llanddwyn)  
 1678 \*Gulielmi Thomas David Rowlandi Hughes  
 1680 Jonettae verch John Thomas  
 1681 Mauricei ap Morris  
 1682 HAcct Gulielmi Lewis  
 \*Gulielmi Lewis  
 1685 \*Richard Meredith  
 \*Gulielmi Owen Wynne  
 1690 Rowland Lloyd  
 1692 \*Thomae Owen  
 \*Henrici Williams (Aber-menai)/186/  
 1692 \*Jane Thomas  
 Hugonis Thomas  
 1693 \*Hugh Owen Gwyn  
 Gulielmi Lewis  
 1696 Gulielmi Joshua  
 1697 Henry ap William Jeffrey  
 1706 \*Margaret Marsh  
 1710 \*Richard Roberts

1712 \*John Solomon  
 1720 Thomas Smith  
 1721 \*Evan Jones  
 1723 \*Ellis Jones  
 1724 \*Thomas Jones  
 1725 Owen Roberts  
 1726 John Rowland  
 1727 \*Magdalen Jones  
 Catherine Richard  
 1728 Robert Evan  
 1731 Henry William Lewis  
 1732 Lewis Hughes (Newborough or Llanidan)  
 Jonet David  
 1733 John John.Rowland  
 \*Rowland Williams  
 1734 \*Evan Hughes  
 \*Sarah Jones  
 John Rowland  
 Jane Williams  
 \*Elizabeth Griffith  
 1736 Edward John Owen  
 1740 Mary Samuel  
 1747 \*Jane Owen  
 1748 \*David Lloyd  
 1749 Rowland Morris  
 Owen Pryce  
 1750 \*William Rhydderch  
 1751 Evan Lewis  
 \*William Evan Morgan  
 David Evans  
 1752 \*Mary Williams  
 Hugh Griffith  
 1755 Owen ab Owen  
 1758 \*John Thomas  
 1759 Richard Hughes (will and administration)  
 1760 \*Anthony Hughes  
 \*John Jones John Prichard  
 1761 Mary Hughes  
 John Davies  
 \*Thomas Hughes/187/  
 1761 \*John Hughes  
 William Roberts  
 1763 \*Rowland Owen

1764 \*Owen Ellis  
 1767 Elizabeth Williams  
 1770 David Jones  
 1773 Griffith Rowland  
 1774 \*Humphrey Hughes  
 \*William Prichard  
 1775 John David  
 1777 \*Thomas Williams  
 William Thomas  
 \*Anne Griffith  
 1781 Hugh Prichard  
 \*William Thomas  
 \*Abraham Peters  
 1782 Elizabeth Thomas  
 \*Owen Williams  
 1783 Hugh Jones  
 Evan Edward  
 1785 \*William Thomas  
 William Jones  
 1786 \*Richard Isaac  
 John Thomas  
 \*Margaret Evans  
 1788 \*Richard Williams  
 1792 John Hughes  
 1795 Evan Prichard  
 1797 Hugh Williams  
 1800 \*Hugh Williams